

CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher yr 21ain o Orffennaf 2021 am 8.00yh yn Neuadd Dinas Mawddwy.

Presennol; Cyng. Hedd Pugh, Idris Jones, John P Jones, Catrin Jones, Arfon Hughes, Berwyn Harding, Geraint Morgans, John P Roberts (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan yr Is-Gadeirydd y Cynghorydd Hedd Pugh. Roedd ymddiheuriad gan Cyng. Sion Alun Roberts. Eglurodd Cyng. Hedd Pugh ei fod yn y Gadair y tro hwn gan fod llythyr o ymddiswyddiad wedi ei dderbyn gan Berwyn Hughes. Diolchwyd yn fawr iawn i Berwyn am ei holl waith i'r Cyngor a'r gymuned, yn arbennig fel Is-Gadeirydd a Chadeirydd. Gofynnwyd i'r Clerc danfon llythyr o ddiolch iddo.
Atgoffwyd pawb fod rhaid dilyn rheolau'r Neuadd a oedd wedi eu danfon allan ymlaenllaw, a oedd yn cynnwys gwisgo mwgwd wrth gerdded i'r seddi.
2. Cadarnhawyd gofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gyfarfu ar y 26ain o Fai fel rhai cywir ar gynnig Cyng. Berwyn Harding a'i eilio gan Cyng. Idris Jones.
3. Materion yn codi
 - a) **Materion Priffyrdd** – adroddwyd ymateb i'r holl faterion i Gyngor Gwynedd ers y tro diwethaf. Nid oedd ymateb i law i'r materion Cefnffyrdd.
 - b) **Mynwentydd yr ardal** – adroddwyd am ohebiaeth i law gan Rhys Bleddyn (I B Willimas a'i Fab) ac amcangyfrif i law i roi 3 cofeb ym mynwent Dinas Mawddwy yn fflat ar y ddaear wyneb i fynny, ac i ail-lefelu'r gofeb yn ei lle yn unig ym mynwent Mallwyd. Roedd y pris yn £620 a TAW. Yng ngwyneb y pris, gwelwyd y dylid cael amcangyfrifon eraill, a phenderfynwyd gofyn i Dafydd Edwards/Gerallt Hughes a hefyd Andrew Johnson. Cafwyd mynegiant o ddiddordeb gan Cyng. Catrin Jones pan drafodwyd y mater yma.
 - c) Roedd yr holl waith gyda **chyfrifon 2020-21** bellach wedi ei gwblhau gan yr Archwilydd mewnol, ac roedd y cyfan yn barod i'w cyflwyno i'r Archwilydd allanol.
 - d) **Cynghorydd Ward Aberangell** – adroddwyd fod y rhybuddion cyhoeddus wedi ymddangos yn yr ardal. Adroddwyd fod Rhys Davies, Pengwern wedi mynegi diddordeb, ac ar gynnig ffurfiol gan Cyng. Idris Jones a'i eilio gan Catrin Jones, penderfynwyd yn ffurfiol l'w gyfethol l'r Cyngor.
 - e) **Maes Parcio ar ben Bwlch yr Oerddrws** – adroddwyd ymateb gan Edward Jones ar ran y Parc Cenedlaethol yn dweud y byddai rhaid iddynt dderbyn arweiniad Asiantaeth Cefnffyrdd ar pa gamau ymarferol y gellid eu cymryd l greu man diogel l gerbyd dynnu mewn pe bai angen.
 - f) **Giat ar Bont Dolybont** – adroddwyd fod hyn wedi ei drafod ym mhwyllgor mynediad y De o'r Parc Cenedlaethol, a bod bwriad cynnal cyfarfod gyda'r porwyr. Hefyd, roedd y Clerc wedi danfon at Jonathan Chapman o Ymgynghoriaeth Gwynedd ac hefyd wedi siarad a Gwyn Evans o Adran Llwybrau Cyngor Gwynedd. Roedd addewid wedi ei roi i gael giat yno, a byddai rhaid adrodd ymhellach.
 - g) **Sefydlu Is-Bwyllgor Cyllid** – adroddwyd na fu yn bosib cynnal y cyfarfod cyntaf oherwydd ymddiswyddiad y Cadeirydd Berwyn Hughes. Gwelwyd fod angen cynrychiolydd l'r Is-Bwyllgor o ward Dinas Mawddwy (yn dilyn ymddiswyddiad Berwyn Hughes), ac ar gynnig Catrin Jones a'i eilio gan Idris Jones, penderfynwyd ar enw Cyng. John P Jones. Atgoffwyd pawb na fyddai gan y Pwyllgor Cyllid hawl i basio unrhyw faterion, ond yn hytrach eu danfon ymlaen l'r Cyngor llawn i'w cymeradwyo.

4. Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod arbennig a gyfarfu ar y 14eg o Fehefin fel rhai cywir ar gynnig Cyng. Berwyn Harding a'i eilio gan Cyng. Catrin Jones.

Materion yn codi

- a) Adroddwyd y sefyllfa ddiweddaraf gyda thorri gwair mynwent Mallwyd. Mynegwyd geiriau o ddiolch i ddechrau i'r Cyng Hedd Pugh a Geraint Morgans am fynd hefo Tegid y contactor pan aeth yno I dorri'r gwair ar y 19eg o Fehefin, ac am ymateb yn dawel a rhesymol l'r sefyllfa, (gan gofio fod y cyfan wedi cael ei ffilmio.) Gwelwyd yn awr fod rhaid mynd ymlaen i dorri y gwair i gyd, a chytunodd pawb efo hyn. Byddai'r Clerc yn siarad gyda Tegid mor fuan a phosib, ac addawodd Cyng Hedd Pugh a Geraint Morgans fynd yno I gynorthwyo unwaith eto.
- b) Yn unol a'r cais yr oedd wedi ei dderbyn gan y Cynghorwyr yn y cyfarfod arbennig ar y 14eg o Fehefin, adroddodd y Cyng. Hedd Pugh ei fod wedi cysylltu gyda Un Llais Cymru, ac hefyd gyda'r Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd. Roedd wedi danfon yr e-bost a oedd yn cynnwys cyngor oedd I law gan Un Llais Cymru ymlaen l'r Clerc, ynghyd a'r 'Model protocol Datrysiadau Lleol' - ac roedd y cyfan wedi ei ddanfôn ymlaen l'r holl Gynghorwyr. Ar gynnig Catrin Jones a'i eilio gan Geraint Morgans, penderfynwyd I fabwysiadu y Model, ac yn awr roedd angen paratoi cylch gorchwyl. Byddai hyn yn cael ei wneud mewn cydweithrediad a Un Llais Cymru, ac yna ei ddanfôn I bawb. Byddem wedyn yn medru parhau gyda'r broses.

6. Materion Cynllunio

Adroddwyd fod dau gais wedi eu cylchredeg ers y cyfarfod diwethaf, ac roedd yr ymatebion fel a ganlyn;

NP5/74/333J – Gosod cwt caffi prydau parod yn lle y caffi presennol yn Canolfan Arddio Camlan – nid oedd unrhyw wrthwynebiad.

NP5/74/94E – Adeiladu estyniad ochr unllawr I annedd heb ei gwblhau – Maes Tirion, Dinas Mawddwy. – nid oedd unrhyw wrthwynebiad. Ychwanegwyd fod yr estyniad wedi ei osod I ffwrdd o'r ffordd, ni fyddai yn amharu ar unrhyw gymdogion, ac roedd yn gweddu l'r ty.

7. Materion Cyllid.

- a) Nodwyd fod cost adnewyddu aelodaeth SLCC (Society of Local Council Clerks) i'w adnewyddu, ac ar gynnig Cyng Catrin Jones a'i eilio gan Idris Jones, cytunwyd fod y Cyngor yn talu hwn, - roedd y gost tua £85 fel llynedd.
- b) Cadarnhawyd taliad cydnabyddiaeth chwarter cyntaf y Clerc, sef £435.15, ynghyd a taliad o £108.60 i HMRC.
- c) Cyfeiriwyd yn fyr at wariant y Cyngor o'i gymharu a'r gyllideb, a oedd yn cael ei diweddarau yn rheolaidd.
- d) Yn dilyn y cofnod yn y cyfarfod diwethaf, cadarnhawyd fod Cyfrifon 2020-21 bellach wedi eu dychwelyd gan yr Archwilydd mewnol, sef Uned Archwilio Cyngor Gwynedd. Cyflwynwyd rhain a holl waith 2020-21 i sylw y Cyngor Cymuned. Roedd yr holl ddatganiadau a'r papurau atodol yn awr yn gyflawn i'w cyflwyno i'r Archwilydd Allanol maes o law.

8. Gohebiaeth.

- a) Cyfeiriwyd yn llawn lythyr y Berwyn Hughes yn amlinellu ei resymau am ymddiswyddo, sef prysurdeb yn y Llew Coch, ac nad oedd ganddo'r amser i ymrwyo i'r gwaith. Ar gynnig Cyng Catrin Jones, a'i eilio gan Geraint Morgans, penderfynwyd mynd ymlaen gyda'r broses o gael Cynghorydd i'w olynu o ward Dinas.
- b) Cyfeiriwyd at ohebiaeth gan Gyngor Cymuned Llandegai, ynghyd a nifer o Gynghorau eraill, ynglyn a diffyg ymateb gan Gyngor Gwynedd i ohebiaethau. Cadarnhawyd nad oedd hyn yn broblem inni ym Mawddwy, ond yn hytrach roedd mwy o drafferth cael atebion gan yr Uned Cefnffyrdd.
- c) Nodwyd fod Cyfarfod Blyneddol Biosffer Dyfi Nos Iau 22ain Gorffennaf am 7yh dros zoom. Gan mai Cyng Berwyn Hughes oedd ein cynrychiolydd ar Ecodyfi, roedd angen penodi cynrychiolydd arall, a byddai'r Clerc yn rhoi hyn ar agenda y cyfarfod nesaf. Dywedodd y Cyng Arfon Hughes y byddai ef yn mynychu yn ei swyddogaeth ei hun, ac y gallai ddod ag adroddiad yn ol inni.
- d) Roedd e-bost i law gan Heulwen o gwmni Glyn Rees a'i Fab yn dweud y byddai llwch y diweddar Tony Carlton yn cael ei gladdu ym mynwent Dinas Dydd Gwener 23ain Gorffennaf, yn unol a'r trefniadau y cytunwyd arnynt.
- e) Roedd e-bost gan Mel ab Owain yn cadarnhau cyfarfod o Un Llais Cymru Meirionnydd Nos Fercher 28 Gorffennaf am 7yh.
- f) Nodwyd ohebiaeth am ymgynghoriad y dylai Clercod Cynghorau Cymuned gael cymwysterau i'r gwaith. Y dyddiad cau oedd yn 24ain o Fedi. Byddai'r Clerc yn edrych ar hyn ymhellach, ac yn adrodd yn y cyfarfod nesaf.
- g) Nodwyd ohebiaeth gan Mantell Gwynedd ynglyn a chynnig hyfforddiant 'Cyflwyniad i werth cymdeithasol'

11. Unrhyw Fater arall.

- a) Adroddwyd fod coed uchel ger Brynhyfryd , a bod angen dwyn sylw yr Adran Cefnffyrdd.
- b) Mynegwyd cryn bryder am lanast ger yr arosfan rhwng safle y ddwy hen garej yn y Dinas, gan gynnwys baw dynol. Roedd hyn yn sefyllfa annerbyniol. Fe nodwyd fod yna arwyddion gerllaw fod toiledau yn y Dinas, ac roedd cwestiwn beth fwy allem ei wneud i wella'r sefyllfa.
- c) Nodwyd y cwynion am sefyllfa toiledau Dinas, gan gynnwys dwr yn gollwng etc. Cadarnhaodd y Clerc fod hyn wedi ei gyfeirio at Gyngor Gwynedd ar sawl achlysur. Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi danfon llythyr o ddiolch i Jane Davies am ei gwaith yn glanhau y toiledau dros y blyneddoddedd, ac wedi rhoi blodau iddi.
- d) Roedd ochr y ffordd ar Rhiw Landrin angen ei lanhau.
- e) Roedd coed yn gwyro i'r llwybr troed sydd yn arwain i lawr o'r gofeb i Minllyn, ac roedd angen dwyn sylw y perchnogion tir.
- f) Roedd yna waith ei angen ar y Maes Parcio yn y Plas, ac angen mwy o eglurder ar lle yn union mae'r cyfrifoldeb.
- g) Cyfeiriwyd ar y llwybr sy'n arwain o'r toiledau draw i'r Plas, ac bod mieri a gwair yn tyfu trosodd iddo. Addawodd Cyng Arfon Hughes y byddai ef ar ran Cwmni Nod Glas yn edrych ar hyn.

DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NEUADD DINAS MAWDDWY, NOS FERCHER 1af o Fedi 2021, 8.00yh.

Daethpwyd a'r cyfarfod i ben am 9.10yh.

